# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 4

NEWIDIADAU MEWN TREFNIADAU GWEITHREDIAETH

## PENNOD 1

MABWYSIADU FFURF WAHANOL AR WEITHREDIAETH

*Darpariaethau cyffredinol*

### 38 Y cynigion ar gyfer mabwysiadu ffurf wahanol ar weithrediaeth

(1) Rhaid i'r awdurdod lleol lunio cynigion i amrywio ei drefniadau gweithrediaeth neu i roi trefniadau yn eu lle, a'u cymeradwyo drwy benderfyniad (os bwriedir defnyddio'r pwerau a roddir gan adran 37).

(2) Wrth lunio'r cynigion, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried i ba raddau y bydd y cynigion yn debygol, os rhoddir hwy ar waith, o gynorthwyo i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae swyddogaethau'r awdurdod yn cael eu harfer, gan roi sylw i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol anfon at Weinidogion Cymru—

- (a) copi o'r cynigion a gymeradwywyd ganddo, a
- (b) (gyda'r copi o'r cynigion) ddatganiad sy'n disgrifio'r rhesymau pam bod yr awdurdod o'r farn y byddai ei gynigion yn debygol, pe byddent yn cael eu rhoi ar waith, o sicrhau bod penderfyniadau'r awdurdod yn cael eu gwneud mewn ffordd effeithlon, dryloyw ac atebol.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ai i gymeradwyo'r cynigion ai peidio.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig am eu penderfyniad.

(6) Os yw Gweinidogion Cymru'n rhoi hysbysiad am benderfyniad i beidio â chymeradwyo'r cynigion, rhaid i'r awdurdod lleol beidio â chymryd unrhyw gamau pellach i roi'r cynigion ar waith ar ôl i'r hysbysiad gael ei roi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 38 mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 178(2)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 38.